Get heard

National Action Plan for
Social Inclusion 2006

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gynhwysiant Cymdeithasol 2006
Pecyn Cymorth Cyfranogi

dod â phobl sy'n dioddef tlodi ac allgáu cymdeithasol i mewn i drafodaeth y llywodraeth ar sut i fynd i'r afael â thlod

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei ddatblygu gan weithgor a sefydlwyd gan y Tasglu Polisi Cymdeithasol a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Diolch i'r Adran Gwaith a Phensiynau am gymorth ariannol i'w gynhyrchu.

Cyhoeddwyd gan Oxfam ar ran y Tasglu Gorchwyl Polisi Cymdeithasol a'r Adran Gwaith a Phensiynau

I gael rhagor o gopïau, neu i drafod defnydd o'r ddogfen hon a sut i fynd ati i gyfrannu at y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Ar Gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol, cysylltwch â:

UK Coalition Against Poverty
St. Thomas Centre
Ardwick Green North
Manchester
M12 6FZ

Tel: 0161 272 9111

Hefyd ar gael yn electronig ar www.ukcap.org/toolkit,
ynghyd â dogfennau ategol eraill

Awst 2004

Cynnwys

1. Cefndir:

1.1 Cyflwyniad

1.2 Beth yw'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gynhwysiant Cymdeithasol?

1.3 Beth yw'r amserlen ar gyfer CGC 2006?

1.4 Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

2 Y gweithdai:

2.1 Tlodi a pholisi

2.2 Materion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

2.3 Menywod a dynion (rhyw)

2.4 Anabledd

3 Adnoddau:

3.1 Gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol

3.2 Ffurflenni gwerthuso, adborth a monitro cyfle cyfartal

3.3 Rhestr wirio ar gyfer hwyluso cyfarfodydd hygyrch

1. Cefndir

1.1. Cyflwyniad

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn gyda'r nod o ddod â phobl sy'n dioddef tlodi ac allgáu cymdeithasol i mewn i drafodaeth y llywodraeth ar sut i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol (CGC) yn rhan o fenter Ewropeaidd i gael effaith bendant ar dlodi erbyn 2010. Mae pob gwlad yn cynhyrchu CGC er mwyn esbonio pa gamau y mae'n eu cymryd i ddelio â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae'r CGC yn gofyn am ddeialog eang a chynhwysol am bolisïau a strategaethau gwrth-dlodi. (Am fwy o wybodaeth, gweler Adran 1.2).

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn drwy bartneriaeth o bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi, sefydliadau'r sector cymunedol a gwirfoddol sy'n cymryd rhan yn y frwydr yn erbyn tlodi yn y DU, a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Credwn fod yn rhaid i'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi gymryd rhan weithredol yn y broses hon am y rhesymau canlynol:

- Mae gan y bobl sydd â phrofiad o dlodi ac allgáu cymdeithasol yr hawl i'w lleisiau gael eu clywed.
- Mae'n helpu i sicrhau fod pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi yn gallu dylanwadu ar yr hyn a wna'r llywodraeth.
- Daw grwpiau gwerin gwlad â phwyslais ar urddas dynol a hawliau cyffredinol.
- Mae'n helpu i hyrwyddo ymagwedd gyfannol at ddeall a mynd i'r afael â thlodi.
- Bydd yn haws deall a mynd i'r afael â chymhlethdodau tlodi wrth i fwy o brofiadau o dlodi a phrofiadau gwahanol o dlodi gael eu trafod.

Beth yw'r pecyn cymorth?

Canllaw ar gyfer cyfrannu yw hwn, nid llawlyfr cyfarwyddiadau. Mae'n rhoi digon o wybodaeth i helpu'ch gr_p wrth iddo ystyried polisïau'r llywodraeth a thlodi a beth y mae angen ei wneud.

Mae'n cynnwys:

Gwybodaeth gefndirol i'r CGC.

Gwybodaeth ynghylch y broses ymgynghori ar gyfer yr CGC nesaf (i'w gynhyrchu yn 2006).

Awgrymiadau ar gyfer pedwar math o weithdy i helpu i ymchwilio i amrywiaeth ○ faterion yn yr CGC

Nodiadau defnyddiol ar redeg sesiynau cynhwysol.

Ffynonellau gwybodaeth ddefnyddiol.

Ffurflenni gwerthuso ac adborth er mwyn gadael i ni wybod beth ydych yn meddwl o'r pecyn cymorth yn ogystal â hysbysu eraill am y materion a godwyd gennych.

1.1 Pam ddylech chi gymryd rhan?

Bydd dod yn gysylltiedig â'r CGC yn golygu gofyn cwestiynau sylfaenol i chi'ch hunan yngl_n â'r pethau sy'n effeithio ar eich bywyd ac ar fywyd eich cymuned, a bydd yn golygu gweithio er mwyn newid y rhain er gwell.

Cwestiynau fel:

- Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi? Sut ydych chi'n dylanwadu ar y penderfyniadau hyn?
- Pa effaith mae polisi'r llywodraeth yn ei chael ar eich bywyd chi neu ar fywyd eich cymuned?
- Beth fyddech chi yn ei ddweud am eich profiadau o dlodi wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau?
- Yn eich barn chi a yw'r llywodraeth yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi?

Gobeithiwn y byddwch yn ei gael yn ddefnyddiol ac y bydd yn rhan o'r ddeialog i ddileu tlodi ac allgáu cymdeithasol!

1.2 Beth yw Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol (CGC)?

Mae pob gwlad yn Ewrop yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol, neu CGC, ar allgáu cymdeithasol, sy'n amlinellu'r problemau a'r dulliau allweddol o fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae'n cwmpasu meysydd fel tai, cyflogaeth, anghydraddoldebau iechyd, plant a phobl h_n, anabledd, materion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a rhyw.

- Hyd yn hyn bu dau CGC - disgwylir y trydydd yn 2006.
- Mae'r CGC yn gymorth i ddeall y cymhlethdodau a'r gwahaniaethau sydd mewn tlodi ar draws yr UE.
- Mae'r CGC yn rhannu dysg yngl_n â'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio wrth drin tlodi.
- Mae CGC y DU yn nodi'r hyn sy'n digwydd ar draws y DU. Mae hyn yn dwyn ynghyd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- Mae yna amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ar draws yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad i gyflogaeth, nwyddau a gwasanaethau, atal allgáu cymdeithasol, helpu'r rhai mwyaf bregus, ac ymgysylltu â phawb sydd â buddiant. Golyga hyn nad y llywodraeth yn unig sydd dan sylw. Mae'r broses yn dwyn ynghyd weinyddiaethau sydd wedi eu datganoli, llywodraeth leol, grwpiau tlodi, grwpiau gwerin gwlad - a chi!

Beth oedd yn CGC 2003?

- Nododd CGC 2003 ymagwedd strategol y llywodraeth i ddileu tlodi plant ac i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Seiliwyd hyn ar dair egwyddor: cynnal economi cryf; sicrhau marchnadoedd llafur hyblyg; a datblygu gwasanaethau o'r radd flaenaf.
- Roedd yr CGC yn cynnwys manylion am raglenni allweddol y llywodraeth i gyflawni hyn, gan gynnwys: Bargeinion Newydd, Canolfan Byd Gwaith, Credydau Treth, Isafswm Cyflog Cenedlaethol, Strategaethau Tai, Diwygiadau i'r GIG, ymdrin â thlodi tanwydd, mynd i'r afael â thangyflawni yn yr ysgol, darparu gofal plant safonol, diwygio pensiynau, mynd i'r afael â gorddyledusrwydd, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – a llawer mwy.
- Mae'n datgan pwy fydd yn darparu'r rhaglenni hyn, gan gynnwys awdurdodau lleol a gweinyddiaethau sydd wedi eu datganoli.
- Mae'n trafod y gwaith a wnaed gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol wrth ddarparu gwasanaethau a helpu i feithrin agwedd mwy cyfranogol tuag at yr CGC nesaf..

1.3 Beth yw'r amserlen ar gyfer CGC 2006?

Bydd ymgynghoriad yr CGC yn cael ei rannu'n dri phrif gam. Y cam cyntaf yw'r sail ar gyfer y ddau arall ac felly mae'n bwysig iawn. Fel caseg eira, mae'r gwahanol gamau yn cynyddu mewn momentwm wrth i'r broses dyfu a chynnwys mwy o bobl. Ond mae'n bwysig cydnabod fod llais y bobl hynny sydd â phrofiad o dlodi yn ganolog i'r ddeialog.

Cam 1 yw'r paratoi allweddol – y gweithdai a gynhelir ar lefel gwerin gwlad a chymunedol sy'n dechrau yn yr Hydref, 2004.

Mae **Cam 2** yn dwyn ynghyd grwpiau ehangach a llunwyr polisi lleol a rhanbarthol i gyd-flaenoriaethu a thrafod ymhellach y materion allweddol sydd wedi deillio o'r gweithdai lleol.

Mae **Cam 3** yn dwyn ynghyd yr holl bartïon ar y materion allweddol.

Y rhain yw'r bobl sydd â phrofiad o dlodi, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol ac yn rhanbarthol a gweision sifil.

Ymhob cam yn y broses, anogir trefnwyr digwyddiadau i gynnig adborth i'r rhai a gymerodd ran er mwyn i bobl gael gwybod beth ddigwyddodd i'w mewnbwn; ceir ffurflenni gwerthuso i gefnogi'r broses hon yn adran 3.2.

Mae yna ddyddiadau allweddol i'w cadw mewn cof ar gyfer CGC 2006. Bwriad y llinell-amser ganlynol yw rhoi syniad o sut y gallai gweithgaredd lleol gyd-fynd â'r broses ehangach. Ond mae cyfranogi yn rhywbeth sy'n parhau.

Cerrig milltir allweddol yr CGC ar lefel y llywodraeth



Ymgysylltiad gwerin gwlad â phroses yr CGC

Mehefin hyd Ragfyr, 2005, y DU yn llywyddu yr UE. Bydd hyn yn cynnwys cynhadledd 'Bwrdd Crwn' wedi ei chynllunio o amgylch CGC ym mis Hydref.

1.4 Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

Mae yna nifer o ffyrdd a chyfleoedd i gymryd rhan a gwahoddir chi i ddefnyddio cymaint o'r pecyn cymorth hwn neu gyn lleied ohono ag a ddymunwch.

Cyn dechrau

Mae yna rai pethau y byddai'n ddefnyddiol i chi eu hystyried yn fanwl cyn dechrau'r gweithdai. Er mwyn sicrhau fod proses yn gynhwysol mae'n bwysig canolbwyntio ar ddwy agwedd: sut y mae wedi ei threfnu a'i hwyluso a beth yw cynnwys y trafodaethau. Mae ystyried amrywiaeth yn dod i mewn i'r ddau beth hyn, nid dim ond y naill neu'r llall. Dylech hefyd ystyried cadw cofnodion cyn dechrau.

Sut mae'r gweithdy'n cael ei drefnu a'i hwyluso

Mae pobl yn hoffi cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd; gall yr hyn sy'n addas i un person - trafodaeth o amgylch y bwrdd, er enghraifft - fod yn anodd iawn i un arall. Mae'n bwysig fod gan broses amrywiaeth a hyblygrwydd er mwyn sicrhau fod pobl yn gallu ymgysylltu â hi orau gallant.

Mae sawl mater yn bwysig yma:

- Llythrennedd
- eithoedd
- Hyder
- Materion cymdeithasol a diwylliannol, yn ymwneud â rhyw, oedran a statws
- Hunaniaeth.

Nid yw'n ddigon i gael 'cymysgedd da' o bobl mewn digwyddiad – os yw rhai pobl yn teimlo na allant leisio eu barn, yna nid ydynt yn cymryd rhan. Felly mae angen trefnu digwyddiad mewn modd sy'n galluogi gwahanol bobl i ddweud eu dweud.

- Defnyddiwch offer cyfranogol, gweithiwch mewn grwpiau bach, defnyddiwch gymysgedd o offer – rhai yn fwy gweledol nag eraill.
- Cadwch weithgareddau'n fyr, yn amrywiol a hawdd eu trin.
- Rheolwch y broses – trefnwch grwpiau yn ôl diddordebau neu hunaniaeth ; os ydych yn meddwl y byddai menywod yn ei gweld hi'n haws i drafod materion o fewn gr_p o fenywod yn unig, yna trefnwch hynny.
- Sicrhewch fod pawb sy'n bresennol o fewn y gr_p hwnnw yn chwarae rhan weithredol.
- Defnyddiwch offer hwyluso syml er mwyn sicrhau fod pawb yn cael cyfle i ddweud ei ddweud a chael siarad heb i neb dorri ar ei draws – er enghraifft, rhowch wrthrych i'r un sy'n siarad i'w ddal, neu rhowch bedair matsien i bawb a phob tro bydd un yn siarad, bydd yn defnyddio un fatsien.

Cynnwys y trafodaethau

Wrth geisio dod â throsolwg o'r hyn a benderfynwyd i'w derfyn, mae'n hawdd iawn colli golwg ar ddyfnder y ddealltwriaeth a gafwyd yngl_n ag anghenion gwahanol bobl. Y duedd yw cofnodi'r consensws neu'r prif flaenoriaethau gan golli'r manylder. Er mwyn osgoi hyn, fel yr â'r broses rhagddi, gofynnwch y cwestiynau canlynol yn aml:

- Sut mae'r mater hwn yn effeithio ar fenywod? Sut mae'n effeithio ar ddynion? Beth yw'r gwahaniaeth? Beth y mae angen ei wneud?
- Sut mae'r mater hwn yn effeithio'n wahanol ar yr hen a'r ifanc? Beth sydd raid ei wneud?
- A oes gwahaniaeth hunaniaeth yma? Sut mae'r mater yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig? Beth y mae angen ei wneud? O fewn y grwpiau hynny, beth sy'n wahanol i ddynion a menywod, yr ifanc a'r hen?

Chwiliwch am ac ymchwiliwch i wahaniaeth yn hytrach na chonsensws oherwydd mae hyn yn parhau i ehangu'r broses drwy gynnwys syniadau mwy a mwy o bobl.

Cadw cofnodion

Yn ystod y gweithdy, nodwch pwy sy'n cymryd rhan ymhob gweithgaredd. Gellir gwneud hyn un ai drwy enw, os yw hynny'n dderbyniol gan y gr_p, neu drwy hunaniaeth. Os oes llawer o bobl yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a maent i gyd yn cymryd rhan mewn gwahanol bethau, gallech ddefnyddio system god gyda smotiau gludiog. Rhowch set o smotiau o un lliw a siâp i bawb i'w defnyddio wrth gymryd rhan mewn ymarferion; gellir pennu categori yn ôl rhyw ac oedran, neu yn ôl materion eraill o hunaniaeth.

Nodwch sut aeth yr ymarferion/sesiynau gyda gwahanol bobl – beth weithiodd orau a beth fethodd. Mae hyn yn ddefnyddiol dros ben wrth gynllunio sesiynau'r dyfodol, ond mae hefyd yn gymorth i ddehongli gwybodaeth. Os oedd proses yn anodd ei chychwyn, yna efallai fod y wybodaeth a gasglwyd ac a drafodwyd yn unochrog mewn rhyw ffordd – er enghraifft, os bu i un person neu gr_p gymryd yr awenau yn y sgwrs, a oedd profiad yr holl gr_p yn cael ei adlewyrchu mewn gwirionedd?

Efallai y byddwch am ystyried defnyddio recordydd tâp i recordio rhannau o'ch digwyddiad. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n bosibl defnyddio dyfyniadau manwl gywir yn ddiweddarach, a byddai hefyd yn sicrhau na fyddai mewnbynnau pobl nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad o drafodaethau gr_p yn mynd ar goll.

Gofynnir i chi gynnwys rhywfaint o fonitro a gwerthuso ym mhroses eich gweithdy er mwyn gwneud y broses o gyfuno'n bosibl (gweler adran 3.2) ac er mwyn bwydo'ch gwaith i mewn i'r broses ymgynghori gyda'r DWP a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol.

2. Y Gweithdai

National Action Plan for Social Inclusion 2006
Participation toolkit

2. Y Gweithdai

Gellir defnyddio'r gweithdai canlynol i ymchwilio i'r CGC, neu i edrych ar faterion lleol ynghylch tlodi. Diben y gweithdai yw holi'r rhai sy'n cymryd rhan yngl_n â'u bywydau a'u cymunedau er mwyn iddynt ddatgelu eu profiadau o dlodi. Dylai cwestiynau allweddol, i greu llinyn cyffredin gyda gweithdai eraill, gynnwys bob tro:

- Beth sy'n gweithio?
- Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio?
- Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol?

Bydd o gymorth os yw gweithdai'n gallu canolbwyntio ar feddwl am atebion i broblemau, ac nid disgrifio'r problemau yn unig.

Mae'r fformat cyffredin yn sicrhau y bydd yr holl weithdai ar draws y wlad yn casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r un cwestiynau. Mae pob gweithdy yn cynnwys y chwe adran ganlynol:

1. Cyflwyniad
2. Torri'r ias
3. Ymchwilio i'r materion a'r polisïau perthnasol
4. Gofyn cwestiynau allweddol
5. Crynhoi a dwyn ynghyd
6. Gwerthuso a dod i gasgliadau.

Ceir pedair enghraifft o weithdai, yn awgrymu ffyrdd o drafod gwahanol themâu. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain, y gellir eu haddasu fel y gwelwch orau ar gyfer eich gr_p. Maent yn cynnwys:

- Tlodi a pholisi: dyma olwg cyffredinol ar dlodi a gallai fod yn thema dda i ddechrau'r broses.
- Materion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Rhyw – menywod a dynion.
- Anabledd.

Efallai y bydd eich gr_p am ymchwilio i fwy nag un thema, neu yn wir unrhyw thema arall nad yw wedi'i chynnwys yma – fel oedran, digartrefedd, plant, materion gwledig a threfol…

Bydd hyd y gweithdy yn dibynnu ar amgylchiadau'ch gr_p. Defnyddiwch yr amseroedd a nodir yn y gweithdai enghreifftiol fel canllawiau yn unig; dylent fod yn agos ati ar gyfer gr_p o tua phymtheg o bobl. Os yw amser yn caniatáu, efallai yr hoffech ymchwilio i fwy nag un thema, p'un ai mewn un cyfarfod neu dros gyfres o gyfarfodydd.

Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am redeg gweithdai a materion mynediad yn yr atodiad. Er mwyn sicrhau nad yw'r negeseuon yn mynd ar goll yn y broses, mae adran saith yn esbonio rhai systemau ar gyfer gwerthuso a recordio trafodaethau i bwysleisio safbwyntiau lleiafrifoedd yn ogystal â safbwynt y mwyafrif.

- Mae'n bwysig sicrhau fod y gweithdy yn cofnodi mewnbwn pawb sy'n cymryd rhan, nid y mwyafrif yn unig.
- Gwnewch yn si_r fod gan bobl y dewis i gadw eu cyfraniadau yn ddienw

Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae ystod y rhai sy'n cymryd rhan yn cwmpasu amrywiaeth fawr o wahanol bobl: dynion, menywod, pobl anabl, yn ogystal ag amrywiaeth o oedrannau a gwahanol gefndiroedd ethnig.

Cofiwch, gallwch bob amser gysylltu ar gyfer mwy o gefnogaeth a mynd i'r wefan (www.ukcap.org/toolkit) am ddiweddariad o'r pecyn cymorth a'r broses.

2.1 Gweithdy tlodi a pholisi

Beth yw diben y sesiwn hwn?

- Trafod beth a olygir/a ddeellir gan dlodi
- Ymchwilio i sut y mae polisïau'r llywodraeth yn effeithio ar dlodi
- Canfod sut y gallai polisi'r llywodraeth fod yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi.

Y tri chwestiwn allweddol y mae angen i'r gweithdy roi sylw iddynt yw:

- Beth sy'n gweithio?
- Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio?
- Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol?

Y paratoi y mae ei angen:

- Mae angen i'r hwylusydd fod yn gyfarwydd ag CGC 2003, gan dynnu ar y wybodaeth i'w defnyddio yn y gweithdy (gweler adran 3.1).
- Paratoi gwybodaeth gefndirol ar dlodi yn y DU a rhai o'r polisïau perthnasol allweddol sydd wedi eu cyflwyno (gweler adran 3.1).
- Efallai yr hoffech ddefnyddio hyn i baratoi cwis ystadegol (gweler www.ukcap.org/toolkit am enghraifft).

Y deunyddiau y mae eu hangen:

- Siart droi, ysgrifbinnau, sticeri, 'Blu Tack', ac ati

Syniadau cyffredinol ar gyfer hwyluso:

Mae llawer o feysydd polisi sy'n gallu cael effaith ar leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, gan gynnwys iechyd, cyflogaeth, adfywio economaidd, trafnidiaeth, nawdd cymdeithasol, neu gyfle cyfartal. Efallai yr hoffech ddefnyddio astudiaethau achos neu hanesion er mwyn ysgogi trafodaeth ar effaith polisi a helpu pobl i fyfyrio ynghylch eu profiadau eu hunain wrth ateb y tri chwestiwn allweddol uchod.

Tlodi a pholisi

Hyd a'r deunyddiau y mae eu hangen	Gweithgaredd a diben	Nodiadau a dulliau'r hwylusydd
20 munud	Cyrraedd, cofrestru, lluniaeth a chynefino	
15 munud	1. Cyflwyniad a throsolwg ar y gweithdy	Gofynnwch i bawb roi ei enw. Rhowch wybod i bobl ble mae'r gweithdy hwn yn ffitio i broses yr CGC.
20 munud	2. Torri'r ias	E.e. Gofynnwch i bob person eistedd wrth ochr rhywun nad yw'n ei adnabod. Sgwrs dau funud ddwy ffordd i gynnwys 1. Enw. 2. Pam mae diddordeb ganddo/ganddi yn y gweithdy? 3. Un peth yr hoffai i'r gr_p wybod amdano/amdani. Yna gofynnwch i bob person gyflwyno'r llall i'r gr_p ar sail y tri ateb.
15 munud Paratoi siartiau troi neu daflenni gydag ystadegau.	3. Cefndir cryno o'r newidiadau mewn tlodi – a yw wedi cynyddu? Gostwng? Ac ati. (Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth o'r CGC cyfredol neu wybodaeth o adroddiadau cenedlaethol eraill).	Mae cwis yn ffordd dda o ymdrin ag ystadegau (gweler e.e. www.ukcap.org/toolkit) – neu rhowch ystadegau ar daflen i'r rhai sy'n cymryd rhan a gofyn iddynt beth sy'n eu synnu. Yn ogystal â gwybodaeth am dlodi, sicrhewch eich bod yn darparu gwybodaeth am gyflogaeth a diweithdra, addysg, iechyd, ac ati. Dewiswch yr ystadegau yn ofalus – mae'n hawdd gorlethu pobl!
15 munud ffurfio grwpiau bach 15 munud sesiwn llawn Siartiau troi i gofnodi gwaith grwp	4. Canfod meysydd polisi allweddol	Gan ddefnyddio astudiaethau achos neu hanesion, dechreuwch ganfod meysydd polisi allweddol yr ydych yn gyfarwydd â hwy. Efallai yr hoffech rannu pobl yn grwpiau bach o ddau neu dri er mwyn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan. Cofnodwch y gwahanol bolisïau ar nodiadau Post-it. Yna mewn trafodaeth gr_p llawn dewch â'r holl nodiadau Post-it ynghyd i alluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i nodi unrhyw bolisïau eraill y maent yn ymwybodol ohonynt ac y mae ganddynt brofiad ohonynt. Bydd y polisïau sy'n cael eu nodi yn yr adran hon yn sail i'r brif drafodaeth yn yr adran nesaf.

45 munud Siart droi i gofnodi gwaith grw	5. Ymchwilio i brofiadau o dlodi trwy gwestiynau allweddol	Gan weithio mewn grwpiau bach ymchwiliwch i brofiadau pobl o dlodi er mwyn ateb y tri chwestiwn: - Beth sy'n gweithio? - Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio? - Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol? Dylai fod hwylusydd i bob gr_p. Pwysleisiwch fod angen i hyn fod yn adlewyrchiad o brofiad y rhai sy'n cymryd rhan. Mae'n bwysig hefyd canfod pa bolisi neu fenter y maent yn cyfeirio atynt. Defnyddiwch y polisïau a drafodwyd yn yr adran flaenorol i greu strwythur i'r drafodaeth. Bydd hyn yn helpu i egluro a yw'n rhaglen leol ynteu cenedlaethol. Mae'n ddefnyddiol hefyd egluro pam y mae'r polisi'n gweithio neu'n methu.
30 munud Cardiau neu nodiadau Post-it ar gyfer materion allweddol	6. Crynhoi'r materion ar gyfer pob cwestiwn allweddol	Gofynnwch i bobl weithio mewn parau neu bob yn dri ac i ganfod dau fater allweddol ar gyfer pob cwestiwn uchod. Yna casglwch y rhain ynghyd mewn sesiwn llawn (gallwch glystyru'r rhai tebyg gyda'i gilydd); cadarnhewch gyda phawb fod y pwyntiau a godwyd yn cwmpasu'r holl faterion a nodwyd fel rhai pwysig.
10 munud	7. Sesiwn cloi	Gwnewch yn si_r fod pawb yn hapus i'r holl faterion a drafodwyd gael eu cofnodi. Sicrhewch nad oes gan neb sy'n cymryd rhan faterion o ran cyfrinachedd y mae'n rhaid delio â hwy cyn crynhoi'r drafodaeth. Esboniwch wrth bobl sut y bydd eu syniadau'n cael eu dwyn ymlaen
10 munud Ffurflenni gwerthuso	8. Gwerthuso	Defnyddiwch y ffurflenni gwerthuso a ddarperir yn adran 3.2.

2.2 Gweithdy materion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Beth yw diben y sesiwn hwn?

- Ymchwilio i sut y mae tlodi yn effeithio ar gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig mewn gwahanol ffyrdd
- Ymchwilio i sut y mae'r CGC yn adlewyrchu hyn yn ei ddadansoddiad
- Canfod sut y gallai polisi'r llywodraeth fod yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael â'r tlodi a ddioddefir gan bobl dduon a phobl lleiafrifoedd ethnig yn y DU.

Y cwestiynau allweddol y mae angen i'r gweithdy roi sylw iddynt yw:

- Beth sy'n gweithio?
- Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio?
- Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol?

Y paratoi y mae ei angen:

- Mae angen i'r hwylusydd fod yn gyfarwydd â CGC 2003, gan dynnu ar yr wybodaeth i'w defnyddio yn y gweithdy (gweler adrannau 1.2 a 3.1).
- Paratoi ystadegau a gwybodaeth gefndirol ar dlodi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y DU (gweler adran 3.1).

Y deunyddiau y mae eu hangen:

- Siartiau troi, ysgrifbinnau, sticeri, 'Blu Tack', ac ati
- Recordydd tâp fel rhywbeth wrth gefn i'r rhai sy'n defnyddio Saesneg fel ail iaith.

Syniadau cyffredinol ar gyfer hwyluso:

Bydd angen i hwylusydd y gweithdy hwn ddeall mai lluniad cymdeithasol ac nid rhywbeth biolegol yw hil. Gallech roi ychydig o gefndir am hyn ac am hiliaeth sefydliadol. Bydd angen i chi helpu'r grwpiau i dynnu allan brofiadau cyffredin a rhai amrywiol gan ddibynnu ar ryw, oedran, cefndir ethnig, ardal ddaearyddol ac ati. Os ydych yn ymrannu'n grwpiau llai, bydd yn ddefnyddiol ystyried sut yr ydych am dynnu'r materion cyffredin a gwahanol hyn at ei gilydd; bydd angen ei hwylusydd ei hun ar bob gr_p llai. Efallai y byddwch am ddefnyddio nodiadau Post-it i arddangos pwyntiau allweddol fel y gallwch eu rhoi mewn grwpiau gyda'i gilydd, neu gallech wneud hyn ar bapur siart troi.

Materion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Hyd a'r deunyddiau y mae eu hangen	Gweithgaredd/ diben	Nodiadau a dulliau'r hwylusydd
20 munud	Cyrraedd, cofrestru, lluniaeth ac ymgyfarwyddo.	
10 munud	1. Cyflwyniad a throsolwg ar y gweithdy.	Gofynnwch i bawb roi ei enw. Rhowch wybod i bawb ble mae'r gweithdy hwn yn ffitio i broses yr CGC.
20 munud	2. Torri'r ias.	Gofynnwch i bob person eistedd wrth ochr rhywun nad yw'n ei adnabod. Sgwrs dau funud i gynnwys 1. Enw. 2. Pam mae diddordeb ganddo/ganddi yn y gweithdy? 3. Un peth yr hoffai i'r gr_p wybod amdano/amdani. Yna gofynnwch i bob person gyflwyno'r llall i'r gr_p ar sail y tri ateb.
15 munud Paratoi siartiau troi neu daflenni	3. Profiadau gwahanol a chyffredin o dlodi.	Defnyddiwch ystadegau a gwybodaeth gefndirol i amlygu'r profiadau gwahanol a chyffredin o dlodi i wahanol grwpiau ethnig e.e. tlodi menywod neu ddynion mewn grwpiau ethnig penodol, neu geiswyr lloches; cyfradd cyflogaeth is ymhlith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol. Rhowch ystadegau i'r bobl sy'n cymryd rhan ar ddalen neu wedi'u hysgrifennu ar siart droi a gofynnwch iddynt beth allai'r rhain ei ddatgelu a pham.
30 munud Siartiau troi a nodiadau Post-it i gofnodi gwaith grwp	4. Meysydd polisi allweddol o'r CGC, yn enwedig y rhai a dargedir ar yr anfantais y mae pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ei wynebu e.e. addysg; rhaglenni cyflogaeth y llywodraeth; cyfle cyfartal yn y gweithle; tai a digartrefedd.	Beth yw'r anawsterau penodol yn y meysydd hyn? Sut y gellid eu gwella? Tynnwch allan brofiadau mewn grwpiau thema llai. Yna bydd y grwpiau yn rhoi adborth i'w gilydd yn fyr.

45 munud Siart droi a nodiadau Post-it i gofnodi gwaith grwp	5. Ymchwilio i brofiadau o dlodi trwy gwestiynau allweddol	Gan weithio mewn grwpiau bach ymchwiliwch i brofiadau pobl o dlodi er mwyn ateb y tri chwestiwn: - Beth sy'n gweithio? - Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio? - Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol? Gofynnwch i'r bobl sy'n cymryd rhan a) ymchwilio i'w profiadau eu hunain o dlodi a b) ymchwilio i'r profiadau yn eu cymunedau. Dylai fod hwylusydd i bob gr_p. Dylid cofnodi pwyntiau allweddol ar nodiadau Post-it neu siart droi. Gallent ofyn: A oes gennych enghraifft gadarnhaol yn y flwyddyn ddiwethaf (e.e. ym maes addysg/iechyd/cyflogaeth/tai/y gymuned/hamdden/ mynd i'r afael â hiliaeth) a wnaeth wahaniaeth? Beth yw'r materion anoddaf yr ydych yn eu hwynebu – yn bersonol ac yn eich cymuned? Pa bolisïau y mae angen iddynt newid neu gael eu rhoi yn eu lle er mwyn gwneud gwahaniaethau cadarnhaol? Gellid hefyd recordio sesiynau ar dâp neu ysgrifennu dyfyniadau.
30 munud Siart droi a nodiadau Post-it i gofnodi gwaith grwp	6. Tynnu allan faterion cyffredin a gwahanol	Beth yw'r materion cyffredin? Pa faterion sy'n wahanol i bobl a grwpiau gwahanol? Crynhowch bum mater allweddol ar gyfer pob un o'r cwestiynau uchod. Gellid gwneud hyn trwy drefnu'r materion mewn grwpiau ar nodiadau Post-it. Ar gyfer pob un o'r pum mater allweddol cofiwch beidio â cholli golwg at sut y gallai'r rhain effeithio ar grwpiau amrywiol.
10 munud	7. Sesiwn cloi.	Gwnewch yn si_r fod pawb yn hapus i'r holl faterion a drafodwyd gael eu cofnodi. Sicrhewch nad oes gan neb sy'n cymryd rhan faterion o ran cyfrinachedd y mae'n rhaid delio â hwy cyn crynhoi'r drafodaeth. Esboniwch wrth bobl sut y bydd eu syniadau'n cael eu dwyn ymlaen.
10 munud ffurflenni gwerthuso	8. Gwerthuso	Defnyddiwch y ffurflenni gwerthuso a ddarperir yn Adran 3.2.

2.3 Gweithdy menywod a dynion (rhyw)

Beth yw diben y sesiwn hwn?

- Ymchwilio i sut y mae tlodi yn effeithio'n wahanol ar fenywod a dynion
- Ymchwilio i sut y mae'r CGC yn adlewyrchu hyn yn ei ddadansoddiad
- Canfod sut y gallai polisi'r llywodraeth fod yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi menywod a dynion.

Y cwestiynau allweddol y mae angen i'r gweithdy roi sylw iddynt yw:

- Beth sy'n gweithio?
- Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio?
- Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol?

Y paratoi y mae ei angen:

- Mae angen i'r hwylusydd fod yn gyfarwydd ag CGC 2003, gan dynnu ar y wybodaeth i'w defnyddio yn y gweithdy (gweler adran 3.1).
- Paratoi ystadegau ar gyfer y cwis (gweler adran 3.1).

Y deunyddiau y mae eu hangen:

- Siartiau troi, ysgrifbinnau, sticeri, 'Blu Tack' ac ati

Syniadau cyffredinol ar gyfer hwyluso:

- Efallai yr hoffech ddechrau'r sesiwn trwy ymchwilio i'r hyn y mae pobl yn ei ddeall gan y gair 'rhyw'
- Os oes gennych ddynion a menywod yn eich gr_p, efallai y byddech eisiau cael y bobl i weithio mewn grwpiau un rhyw. Yn enwedig ar gyfer gwaith grwpiau bach, weithiau mae hyn yn helpu pobl i ystyried y materion sylfaenol yn fanwl yn gyntaf. Mae hefyd yn ddefnyddiol dros ben cymharu'r syniadau a'r materion a godir gan bob gr_p, ac yn helpu i ddeall ymhellach y gwahanol faterion a godir gan ddynion a chan fenywod. Os oes gennych lawer o bobl, efallai y byddech eisiau rhannu'r grwpiau ymhellach trwy ddefnyddio meini prawf fel oed, ethnigrwydd ac ati)

Menywod a dynion (rhyw)

Hyd a'r deunyddiau y mae eu hangen	Gweithgaredd	Nodiadau a dulliau'r hwylusydd
20 munud	Cyrraedd, cofrestru, lluniaeth ac ymgyfarwyddo.	
15 munud Siart droi i nodi agweddau ar gyfer menywod a dynion	1. Cyflwyniad a throsolwg ar y gweithdy.	Gofynnwch i bawb roi ei enw a rhoi un agwedd ar dlodi y mae'n ei huniaethu â bod yn ddyn neu'n fenyw. Rhowch wybod i bawb ble mae'r gweithdy hwn yn ffitio i broses yr CGC.
15 munud Paratoi siartiau troi neu daflenni gydag ystadegau. Papur ac ysgrifbinnau	2.Torri'r ias/gweithgaredd	Defnyddiwch ystadegau ar ryw i amlygu'r gwahaniaethau rhwng profiad dynion a menywod o dlodi. Mae cwis yn ffodd dda o ymdrin ag ystadegau – neu rhowch ystadegau ar daflen i'r rhai sy'n cymryd rhan a gofynnwch iddynt beth sy'n eu synnu
15 munud Papur ac ysgrifbinnau	3. Sut mae'r ystadegau yn berthynol i brofiadau pobl	Gofynnwch iddynt sut y mae'r ystadegau yn cydweddu â'u profiad hwy o fod yn fenyw neu'n ddyn. Gallent wneud hyn mewn parau neu grwpiau bach a nodi'r prif bwyntiau
15 munud o waith grwp 15 munud sesiwn llawn Siartiau troi i gofnodi gwaith grwp	4. Sut mae rhai meysydd polisi allweddol o CGC 2003 (e.e. tai, cyflogaeth, mynediad i hawliau, nwyddau a gwasanaethau) yn effeithio'n wahanol ar ddynion a menywod.	Dewiswch nifer fach o feysydd polisi sy'n berthnasol i'r gr_p – rhywbeth i gael y rhai sy'n cymryd rhan i ymgysylltu â'r ffordd y mae materion polisi penodol yn berthynol i ryw. Gofynnwch i'r rhai sy'n cymryd rhan weithio mewn grwpiau bach gyda phob gr_p yn canolbwyntio ar faes polisi gwahanol. Yna byddant yn rhoi adborth i'w gilydd yn fyr.
45 munud Siart droi i gofnodi gwaith grwp	5. Cwestiynau allweddol: ymchwilio i brofiadau o dlodi a sut y maent yn berthynol i ddynion a menywod mewn ffyrdd gwahanol.	Gan weithio mewn grwpiau, o un rhyw o ddewis, gyda rhai grwpiau'n canolbwyntio ar ddynion ac eraill ar fenywod, gofynnwch i bobl ymchwilio i'w profiadau eu hunain o dlodi er mwyn ateb y tri chwestiwn: - Beth sy'n gweithio? - Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio? - Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol? Pwysleisiwch fod angen i hyn fod yn adlewyrchiad o'u profiad eu hunain. Os nad oes dim dynion yn y gr_p (neu ddim menywod), gallai un gr_p geisio ateb y cwestiynau hyn dros y rhyw arall, ond heriwch unrhyw ragdybiaethau a godant.

30 munud Cardiau ar gyfer materion allweddol (neu nodiadau Post-it)	6. Crynhoi'r materion allweddol	Ar gyfer pob cwestiwn, crynhowch y materion allweddol. Gellir gwneud hyn trwy ofyn i bobl weithio mewn parau neu bob yn dri ac i ganfod dau fater allweddol ar gyfer pob cwestiwn. Yna casglwch y rhain ynghyd mewn sesiwn llawn (gallwch glystyru'r rhai tebyg gyda'i gilydd); cadarnhewch gyda phawb fod y pwyntiau a godwyd yn cwmpasu'r holl faterion a nodwyd fel rhai pwysig.
10 munud	7. Sesiwn cloi	Gwnewch yn si_r fod pawb yn hapus i'r holl faterion a drafodwyd gael eu cofnodi. Sicrhewch nad oes gan neb sy'n cymryd rhan faterion o ran cyfrinachedd y mae'n rhaid delio â hwy cyn crynhoi'r drafodaeth. Esboniwch wrth bobl sut y bydd eu syniadau yn cael eu dwyn ymlaen.
10 munud ffurflenni gwerthuso	8. Gwerthuso	Defnyddiwch un o'r ffurflenni gwerthuso a ddarperir yn adran 3.2.

2.4 Gweithdy Anabledd

Beth yw diben y sesiwn hwn?

- Galluogi pobl anabl a'r rhai sy'n gweithio gyda hwy i feddwl am eu dealltwriaeth o dlodi.
- Canfod ac ymchwilio i effaith rhaglenni a mentrau ar bobl anabl.
- Awgrymu ffyrdd y gallai'r CGC fod yn fwy effeithiol wrth ddelio â'r tlodi a ddioddefir gan bobl anabl.

Y cwestiynau allweddol y mae angen i'r gweithdy roi sylw iddynt yw:

- Beth sy'n gweithio?
- Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio?
- Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol?

Y paratoi y mae ei angen:

- Tynnu ynghyd amrywiaeth o bobl â gwahanol anableddau, sydd hefyd yn wahanol o ran oed, rhyw ac ethnigrwydd.
- Sicrhau bod y lleoliad yn gwbl hygyrch i amrywiaeth o bobl â gwahanol anableddau, e.e. systemau dolen, toiled hygyrch.
- Meddwl am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â mynediad. Gallai'r rhain gynnwys cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain (yn aml mae angen rhybudd o bythefnos arnynt) neu drafnidiaeth i leoliad ac oddi yno.
- Efallai y bydd angen cynorthwywyr personol ar rai pobl.
- Mae angen i'r hwylusydd fod yn gyfarwydd â'r CGC er mwyn canfod yr elfennau allweddol sy'n berthnasol i faterion yn ymwneud ag anabledd.
- Paratoi ystadegau ar gyfer y cwis anabledd. Seiliwch y cwis ar ffeithiau ac ystadegau allweddol (gweler adran 3.1).
- Paratoi cardiau ar gyfer gweithgaredd 5. Dylai enw rhaglen neu fenter CGC benodol fod ar bob cerdyn e.e. trafnidiaeth, gofal iechyd. Gallech hefyd roi lluniau ar y cardiau.

Anabledd

Hyd a'r deunyddiau y mae eu hangen	Gweithgaredd/Di ben	Nodiadau a dulliau'r hwylusydd
20 munud	Cyrraedd, cofrestru, lluniaeth ac ymgyfarwyddo	
10 munud	1. Cyflwyniad a throsolwg ar y gweithdy	Rhowch amser i bob person gyflwyno ei hun yn bersonol
25 munud Cwis ystadegau	2. Cwis i dorri'r ias ar anabledd a thlod	Cwis anabledd. Gadewch i bobl ffurfio timau a rhowch gopi o'r cwis a baratowyd gennych yn gynharach i bob un. Mae cwis yn ffordd dda o ymdrin ag ystadegau – neu rhowch yr ystadegau ar daflen i'r rhai sy'n cymryd rhan a gofynnwch iddynt beth sy'n eu synnu. Yn ogystal â gwybodaeth am dlodi, sicrhewch eich bod yn rhoi gwybodaeth am gyflogaeth a diweithdra, addysg, iechyd ac ati. Dewiswch yr ystadegau'n ofalus – mae'n hawdd gorlethu pobl!
20 munud Siart droi papur ac ysgrifbinnau Nodiadau Post-it	3. Mae ychydig o dan draean o'r holl deuluoedd sydd â pherson anabl ynddynt yn byw mewn tlodi. Beth yw'r rheswm am hyn? Pa fath o dlodi mae pobl ag anabledd yn ei ddioddef?	Cadwch bobl yn eu timau a rhowch iddynt ddau ddarn o bapur siart droi – taflenni beth? a pham? Rhowch nodiadau Post-it i bobl a gofynnwch iddynt awgrymu syniadau ynghylch pam y mae pobl anabl mewn tlodi, a pha fath o dlodi mae pobl yn ei ddioddef. Un 'beth' ac un 'pam' gan bob tîm, gan ddibynnu ar y nifer.
5 munud	4. Adborth cyflym	'Beth' a 'pham' gan bob tîm, gan ddibynnu ar y nifer.
40 munud Siart droi ac ysgrifbinnau. Cardiau a baratowyd yn gynharach	5. Cwestiynau allweddol: ymchwilio i brofiadau o dlodi	Ymrannwch yn grwpiau neu'n barau; defnyddiwch y cardiau materion i ysgogi trafodaeth. Gofynnwch iddynt ddewis cardiau sy'n cynrychioli materion sy'n effeithio arnynt hwy yn benodol, fel unigolion neu fel grwp. Gofynnwch i bobl feddwl am y cwestiynau mewn perthynas â'u cerdyn:

		Continued from overleaf - Beth sy'n gweithio? - Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio? - Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol? Rhowch gyfle i bobl rannu eu profiadau. Mae angen rhywun gyda phob gr_p i gofnodi'r wybodaeth ar siart droi â phenawdau arni – 'Gweithio', 'Heb fod yn gweithio', 'A wneir yn wahanol', 'Materion eraill'. Sicrhewch bobl mai dim ond pwyntiau cyffredinol a gaiff eu cofnodi – nid manylion personol.
10 munud	6. Cloi	Gwnewch yn si_r fod pawb yn hapus i'r holl faterion a drafodwyd gael eu cofnodi. Sicrhewch nad oes gan neb sy'n cymryd rhan faterion o ran cyfrinachedd y mae'n rhaid delio â hwy cyn crynhoi'r drafodaeth. Esboniwch wrth bobl sut y bydd eu syniadau yn cael eu dwyn ymlaen.
10 munud Ffurflenni gwerthuso	7. Gwerthuso	Defnyddiwch un o'r ffurflenni gwerthuso a ddarperir yn adran 3.2.

3. Adnoddau

3.1 Gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol

Mae'r gwefannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth a all fod yn ddefnyddiol wrth baratoi gweithdai.

Strategaeth wrth-dlodi:

Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gael ar - www.dwp.gov.uk/publications/dwp/2003/nap/index.asp

Cyfle i Bawb yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (dyma'r adroddiad blynyddol ar strategaeth y llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol) - www.dwp.gov.uk/ofa/reports/2003/index.asp

Ystadegau defnyddiol:

Data o'r Cyfrifiad - www.statistics.gov.uk/census2001/default.asp

Data ar gartrefi sydd o dan yr incwm cyfartalog - www.dwp.gov.uk/asd/hbai.asp

Data am fenywod a dynion ym Mhrydain, Cymru, yr Alban - www.eoc.org.uk/EOCeng/dynpages/research_stats.asp

Y Comisiwn Ewropeaidd

I gael gwybodaeth am yr 'Open Method of Co-ordination' y mae'r CGC yn rhan ohono - www.europa.eu.int/comm/employment_social/soc-prot/soc-incl/index_en.htm

Joint Inclusion Report: dyma asesiad o'r holl CGC y mae'r gwahanol aelod-wladwriaethau wedi'u cynhyrchu. Mae'n rhoi crynodebau o'r CGC ar gyfer pob aelod-wladwriaeth, gan eu rhoi yn eu cyd-destun a chyda pheth dadansoddiad –

http://europa.eu.int/comm/employment_social/soc-prot/soc-ncl/joint_rep_en.htm

I gael y dogfennau CGC eu hunain ar gyfer pob aelod-wladwriaeth –

http://www.europa.eu.int/comm/employment_social/news/2001/jun/napsincl2001_en.html

Lloegr

England Anti-Poverty Platform	www.ukcap.org/england.html
Uned Adnewyddu Cymdogaethau	www.neighbourhood.gov.uk/
Uned Allgáu Cymdeithasol	www.socialexclusionunit.gov.uk/
Uned Cymunedau Gweithredol	www.homeoffice.gov.uk/comrace/active/index.asp
Swyddfeydd y Llywodraeth ar gyfer y Rhanbarthau	www.odpm.gov.uk/

Gogledd Iwerddon

Northern Ireland Anti-Poverty Network (NIAPN)	www.niapn.org/
Llywodraeth Cynulliad Gogledd Iwerddon (wedi'i hatal ar adeg cyhoeddi hwn)	www.ni-assembly.gov.uk/
New Targeting Social Need: dogfen sy'n rhoi gwybodaeth gefndirol am ymdrin ag allgáu cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon	www.ni-assembly.gov.uk/io/research/0401.pdf

Yr Alban

Poverty Alliance (rhwydwaith gwrth-dlodi yn yr Alban)	www.povertyalliance.org
Gweithrediaeth yr Alban (gwefan gyffredinol)	www.scottishexecutive.gov.uk/Home
Dangosyddion cynnydd: Diffiniadau, data, gwybodaeth am linellau sylfaenol a thueddiadau	www.scottishexecutive.gov.uk/library5/social/emsjt-00.asp
Adroddiadau ar Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol	www.scotland.gov.uk/cru/resfind.aspx?series=8,19,45,50

Cymru

Anti-Poverty Network Cymru	www.ukcap.org/wales.html
Llywodraeth Cynulliad Cymru (gwefan gyffredinol)	www.wales.gov.uk/index.htm
Dogfennau LICC ar amddifadedd cymdeithasol yng Nghymru	www.wales.gov.uk/themessocialdeprivation/content/keydocs-e.htm

Y DU

UK Coalition Against Poverty	www.ukcap.org
Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol	www.cre.gov.uk/
Comisiwn Cyfle Cyfartal	www.eoc.org.uk/
Comisiwn Hawliau Anabledd	www.drc-gb.org/
European Anti-Poverty Network	www.eapn.org
ATD 4th World	www.atd-uk.org/
Church Action on Poverty	www.church-poverty.org.uk/
Community Pride Initiative	www.communitypride.org.uk
Oxfam UK Poverty Programme	www.oxfamgb.org/ukpp/
Single Parent Action Network (SPAN)	www.spanuk.org.uk

3.2 Gwerthuso, monitro ac adborth

Mae'n bwysig dros ben fod trafodaethau a safbwyntiau'r rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu cofnodi'n fanwl gywir. Hefyd mae angen i amrywiaeth y safbwyntiau fod yn amlwg yn y ffordd y gwneir y cofnodi er mwyn sicrhau bod y gwahanol safbwyntiau a fynegir gan wahanol grwpiau (dynion, menywod, pobl ifanc, hen bobl ac ati) yn cael eu cyfleu'n glir.

Wrth i'r broses o gymryd rhan yn CGC 2006 gael ei rhoi ar waith fesul cam, mae'n bosibl y bydd materion yn cael eu glastwreiddio neu eu hidlo allan, felly yn y cyfnod hwn mae'n hanfodol y rhoddir cyfle i safbwyntiau unigolion lunio trafodaethau'r dyfodol. Yn rhinwedd eich swydd fel hwylusydd, a wnewch chi gymryd y cyfrifoldeb am sicrhau bod yna gofnod o'r drafodaeth yn y gweithdy. Gellir gwneud hyn mewn amryfal ffyrdd; chi sydd i benderfynu pa un sy'n gweithio orau i chi a'r bobl sy'n cymryd rhan. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i gael manylion cyswllt y rhai sy'n cymryd rhan fel y gallant gael adborth a gwybod sut i gael eu cynnwys yng nghamau nesaf y broses.

Mae yna gwestiynau isod i helpu hwyluswyr i gofnodi'r trafodaethau a rhoi adborth i'r gr_p llywio sy'n monitro a chydgysylltu'r defnydd a wneir o'r pecyn cymorth hwn. Hefyd mae yna ddalen i'r rhai sy'n cymryd rhan ei llenwi, a ffurflen monitro cyfle cyfartal. Fe'ch anogir i ddefnyddio'r ffurflenni gwerthuso hyn, a threulio amser ar ddiwedd y gweithdy yn cynhyrchu gwerthusiad ac adborth fel gr_p. Bwriedir i'r ffurflenni fod yn ganllaw, ac i helpu i sicrhau rhywfaint o gysondeb ar draws ystod y sefydliadau sy'n defnyddio'r pecyn cymorth.

Anfonwch y ffurflenni gwerthuso a monitro wedi'u cwblhau at:

UK Coalition Against Poverty
St. Thomas Centre
Ardwick Green North
Manchester
M12 6FZ

www.ukcap.org/

3.2.1 Adborth gan hwyluswyr gweithdai

Gellir defnyddio'r wybodaeth a gesglir o ddalenni'r rhai sy'n cymryd rhan (gweler 3.2.2), ynghyd ag unrhyw werthusiad gan y gr_p yn ystod y digwyddiad, i'ch helpu i lenwi'r canlynol:

Enw'r sefydliad:

Dyddiad a natur y digwyddiad a gynhaliwyd:

1) Crynodeb neu drosolwg o'r gweithdy – beth ddigwyddodd, beth weithiodd/beth na weithiodd

2) Adborth ar y pecyn cymorth

Polisi'r Llywodraeth- crynhoi safbwyntiau'r rhai a fu'n cymryd rhan (gan sicrhau yr adlewyrchir amrywiaeth y safbwyntiau)

3) Beth sy'n gweithio?

4) Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio

5) Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol?

6) Dyfyniadau cofiadwy – a ddywedodd rhywun rywbeth arbennig o gofiadwy? (nodwch a yw'n briodoladwy ynteu'n ddienw):

7) Negeseuon eraill – dywedwch wrthym am unrhyw beth arall y credwch y dylid ei nodi:

8) A wnaethoch chi gynhyrchu/addasu unrhyw ddeunyddiau ar gyfer y digwyddiad hwn? A ydych yn fodlon eu rhannu? (os ydych, amgaewch gopïau a/neu eu hanfon trwy e-bost)

Anfonwch y ffurflenni gwerthuso a monitro wedi'u llenwi at:

UK Coalition Against Poverty, St. Thomas Centre, Ardwick Green North, Manchester, M12 6FZ http://www.ukcap.org/

3.2.2 Dalenni gwerthuso i'r rhai sy'n cymryd rhan

Enw'r digwyddiad:

Dyddiad:

Bydd yn ddefnyddiol i drefnwyr y digwyddiad a chydgysylltwyr pecyn cymorth CGC gael gwybod beth yr oeddech yn ei deimlo am y gweithdy ac i gael eich barn fel unigolyn. Yn ystod y gweithdy byddwch wedi cael y cyfle i drafod polisi'r llywodraeth. A wnewch chi dreulio ychydig funudau yn nodi beth sy'n bwysig i chi a pha negeseuon y dylai'r llywodraeth eu clywed:

1) Beth oedd yn dda am y cyfarfod heddiw?

2) Beth oedd heb fod cystal am y cyfarfod heddiw?

Polisi'r llywodraeth – meddyliwch am eich bywyd, eich cymuned…

3) Beth sy'n gweithio?

4) Beth yw'r pethau nad ydynt yn gweithio?

5) Sut ddylid gwneud pethau'n wahanol?

6) Negeseuon – defnyddiwch y lle hwn i gofnodi unrhyw negeseuon neu wybodaeth arall y credwch eu bod yn bwysig:

3.2.3 Monitro Cyfle Cyfartal y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol

Caiff y wybodaeth hon ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Caiff y canlyniadau eu defnyddio i fonitro lefelau cyfranogi gwahanol grwpiau ym mhroses yr CGC.

Rhyw

Ticiwch un o'r blychau hyn. Rwy'n: Fenyw ☐ Wryw ☐

Anabledd

Ticiwch un o'r blychau hyn:
A ydych yn ystyried eich bod yn berson anabl: Ydw ☐ Nac ydw ☐
Rhowch ragor o fanylion os ydych yn dymuno:

Oed

Ticiwch un o'r blychau hyn. Rwyf:
O dan 11 ☐ 11-17 ☐ 18-24 ☐ 25-44 ☐ 45-64 ☐ 65 neu drosodd ☐

Tarddiad Ethnig

Nodyn: Nid yw tarddiad ethnig o angenrheidrwydd yn golygu gwlad eich geni neu'ch cenedligrwydd. Ticiwch un o'r blychau hyn. Byddwn yn disgrifio fy nharddiad ethnig fel:-

Gwyn		**Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig**		**Cymysg**	
Prydeinig	☐	Indiaidd	☐	Gwyn/Du Caribiaidd	☐
Gwyddelig	☐	Pacistanaidd	☐	Gwyn/Du Affricanaidd	☐
Arall	☐	Bangladeshaidd	☐	Gwyn/Asiaidd	☐
		Asiaidd arall	☐	Cefndir cymysg arall	☐
Du/Du Prydeinig		**Arall**			
Caribiaidd	☐	Tsieneaidd	☐		
Affricanaidd	☐	Grwp ethnig arall	☐		
Cefndir Duk arall					

3.3 Rhestr wirio ar gyfer hwylus cyfarfodydd hygyrch

Mae'r adran hon yn amlinellu pa gamau y byddai angen eu cymryd yn ddelfrydol er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd a digwyddiadau mor hygyrch â phosibl i bobl anabl ag amrywiaeth o namau. Bydd y digwyddiadau sy'n defnyddio'r pecyn cymorth hwn yn amrywio'n fawr. Cynhwysir y rhestr wirio hon er mwyn helpu trefnwyr digwyddiadau i roi ystyriaeth briodol i hygyrchedd, er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n cymryd rhan yn eu digwyddiad.

Er mwyn gwneud y gweithdai yn hygyrch ac yn gynhwysol, yn arbennig i bobl anabl, mae angen i chi sicrhau bod yr holl leoliadau, cyfleusterau a gweithgareddau yn gwbl gynhwysol i bawb, gan gynnwys pobl â namau ar y golwg, namau ar y clyw, namau ar eu symudedd, problemau cyfathrebu ac anawsterau dysgu, a chydnabod y gall fod namau cudd neu namau lluosog gan rai pobl anabl.

- Dylai'r gwaith cynllunio ac ymgynghori gynnwys sefydliadau pobl anabl. Os nad ydych yn gwybod pwy yn union fydd yn y digwyddiad, mae'n rhaid i chi ragweld yr holl ofynion o ran mynediad (Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995). Os ydych yn gwybod, yna gallwch sicrhau bod yr holl drefniadau yn bodloni gofynion penodol pobl.
- Dylai pob lleoliad fod yn hygyrch, gan gynnwys y ffordd iddo, mannau parcio, mannau gollwng, hygyrchedd o ran trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau y tu mewn, gan gynnwys toiledau, cyfleusterau i newid cewynnau, ystafelloedd cyfarfod, lluniaeth a'r cyfleusterau eraill a ddefnyddir.
- Gwiriwch fod arddangosfeydd a chyfleusterau cofrestru yn hygyrch, gan gynnwys darparu cyfieithwyr, gwybodaeth mewn fformatau gwahanol, bathodynnau mewn print bras wedi'u paratoi ymlaen llaw, byrddau a chadeiriau o uchder hygyrch, ysgrifbinnau a phenseli bach a mawr, bagiau i gario gwybodaeth, ac ati.
- Dylai fod yna fynediad gwastad i'r holl gyfleusterau, gan gynnwys cadeiriau, byrddau, hysbysfyrddau a byrddau gwyn. Dylai fod yna le i symud o gwmpas a dylai pobl mewn cadair olwyn allu eistedd lle dymunant a chyrraedd yr holl fannau ar lwyfan neu mewn gweithdy. Dylai byrddau fod ar gael i unrhyw un y mae angen un arno, ac amrywiaeth o gadeiriau. Mewn ystafelloedd dylai fod yna oleuo da, lle ar gyfer cyfieithwyr a chyfleusterau lleferydd i destun, gwresogi ac awyru cyson a dim s_n sy'n amharu. Dylai fod yna gyfleusterau ar gyfer c_n cymorth. Dylid gosod a gwirio systemau dolen anwythol neu systemau sain eraill. Os bydd siaradwyr o'r llawr neu o gwmpas yr ystafell, dylai meicroffon symudol â chymorth fod ar gael.
- Dylai dyddiadau ac amserau cyfarfodydd gymryd i ystyriaeth ofynion pobl o ran teithio ac unrhyw gymorth personol y mae ei angen, a dylai'r rhai sy'n cymryd rhan gael yr holl wybodaeth o leiaf bythefnos ymlaen llaw, i roi amser i baratoi, addasu ar gyfer eu hanghenion penodol ac ati. Dylai treuliau gymryd i ystyriaeth anawsterau wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a dylid sicrhau y gellir hawlio'n ôl bris tacsi, pris tocyn trên ac ati ar unwaith os oes angen.

continued

- Dylai gwybodaeth, gan gynnwys cyhoeddusrwydd, nodiadau, cofnodion, gwybodaeth gefndirol, ymarferion, nodiadau ar gyflwyniadau ac ati fod yn hygyrch:
  - Dylai cyhoeddusrwydd ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a systemau cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd pawb. Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd y cyfryngau arferol yn cyrraedd cymunedau pobl anabl neu unigolion nad ydynt mewn cysylltiad â sefydliadau pobl anabl.
  - Dylai gwybodaeth ddilyn canllawiau print clir, fod mewn ffont 14 pwynt sans-seriff o leiaf, peidio â defnyddio geiriau mewn priflythrennau nac italig a bod mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille, print bras(18 pwynt), e-bost, sain, geiriau a lluniau, gwefannau (nid fformat PDF), CD-ROMs. Dylai'r holl brint gyferbynnu'n glir â'r cefndir ac ni ddylai gael ei argraffu dros luniau.
  - Ni ddylid cyflwyno gwybodaeth ar y diwrnod nad yw ar gael mewn fformatau eraill, gan fod llawer o bobl angen addasu deunydd i gydweddu i'w gofynion penodol ac ni allant ddarllen gwybodaeth na thaflu golwg arni ar y diwrnod.
  - Ni ddylai ymarferion e.e. ar gyfer torri'r ias, gwneud penderfyniadau, cyflwyniadau ac ati ddefnyddio siartiau troi, lluniau, taflenni, nodiadau Post-it, symud o gwmpas yr ystafell ac ati, nad ydynt yn hygyrch i bawb sy'n cymryd rhan.
  - Dylai amseriadau'r gweithgareddau ganiatáu digon o seibiant i gyfieithwyr, eiriolwyr ac ati (o leiaf bob hanner awr lle nad oes ond un cyfieithydd). Dylai cyfieithwyr gael copïau o nodiadau a chyflwyniadau ymlaen llaw.
  - Dylai'r adborth y gofynnir amdano fod ar gael mewn gwahanol fformatau, i'w ddychwelyd yn newis fformat pobl. Dylid darparu adborth a roddir gan y trefnwyr mewn fformatau eraill.
- Dylai cyfleusterau gofal plant fod yn hygyrch i rieni a/neu blant anabl.
- Dylai d_r fod ar gael ym mhob cyfarfod, gan gynnwys d_r i g_n cymorth. Lle darperir bwyd a diod, dylid ei labeli, gan gynnwys llysieuol, feganaidd, kosher a halal, os yn briodol; dylai fod yn hygyrch i bawb sy'n cymryd rhan a dylai cymorth fod ar gael i gario platiau ac ati. Hefyd dylai gwellt yfed ar gyfer diodydd a chadeiriau a byrddau fod ar gael.
- Ni ddylai hwyluswyr a chyflwynwyr gymryd yn ganiataol bod modd darllen cyflwyniadau gweledol a dylent ddarparu fersiynau testun mewn fformatau eraill. Defnyddiwch siartiau troi yn ofalus oherwydd mae'n bosibl na fydd rhai o'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gallu eu gweld.

continued

- Canllawiau cyfathrebu: dylid briffio'r holl hwyluswyr a'r cynorthwywyr a'r staff gweinyddu, arlwyo a staff eraill ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac arferion da, a dylent ddilyn arferion da wrth gyfathrebu â phobl anabl a'u heiriolwyr, eu cynorthwywyr a'u cyfieithwyr.
- Dylid cytuno ar reolau sylfaenol gan gynnwys, er enghraifft, rhoi arwydd pan fo pobl eisiau siarad, peidio â thorri ar draws ac ati. Hefyd, sicrhewch fod pawb yn cael ei gyflwyno, bod trefn yr ystafell yn cael ei disgrifio a bod yr holl gyfleusterau a'r gweithdrefnau mewn argyfwng yn cael eu hesbonio'n glir. Gwiriwch fod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau yn hygyrch i bawb, gan gynnwys lle i symud a lefelau sain.

Gyda diolch i Flick Harris o Manchester Disabled People's Access Group am yr adran hon. Wedi'i chymryd o Guidelines for accessible meetings and events, ar gael gan y Disabled People's Network Steering Group 0161 273 5033 neu info@dpnsg.org.uk